

Tomen y Mur

cylchdaith 4 milltir / 6.5 km

Pellter: 4 milltir / 6.5 km

Amser: Tua 3 awr

Gradd: Llwybr Hamdden Canolig



Dechrau/Diwedd: Maes parcio ger Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd

Cyfeirnod Grid: SH 697 384

Tirwedd: Caeau garw a rhannau gwlyb. (Gwisgwch esgidiau addas).

Map: OS Explorer OL18 (Harlech, Porthmadog a'r Bala)

Parcio: Maes parcio ger Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd



Sut i Gyrraedd yno?

Ar yr A470 o Flaenau Ffestiniog i Drawsfynydd, trowch i'r dde i gyfeiriad Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd ac ymhen 100m, trowch i'r dde i'r maes parcio.

Nodwch: Map bras yn unig yw hwn. Dylech ddefnyddio'r fersiwn diweddaraf o'r map Arolwg Ordnans perthnasol (gweler uchod) wrth gerdded y daith.

© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. 100022403, 2012

Am y llwybr hwn

Gan ddechrau o bentref Trawsfynydd, mae'r gylchdaith hon yn eich harwain o lannau'r gronfa ddŵr, Llyn Trawsfynydd, ar hyd tir ffermio i'r nodwedd mwyaf arbennig ar y daith, sef caer Rufeinig **Tomen y Mur**. Tomen y Mur yw un o'r safleoedd archaeolegol mwyaf diddorol yn Eryri, ac yn un o'r aneddiadau milwrol Rhufeinig mwyaf cyflawn ym Mhrydain. Mae'r gaer wedi'i lleoli ar lechwedd sydd ar groesffordd pedair ffordd Rufeinig a chyda golygfeydd awdurdodol o'r ardal. Crëwyd y gaer yn OC 78 gan Gnaeus Julius Agricola, y cadfridog Rhufeinig a oedd yn gyfrifol am lawer o'r goncwest Rufeinig ym Mhrydain, er mwyn cynnal trefn ymysg y Celtiaid brodorol a gwarchod cysylltiadau ffyrdd.



Tomen y Mur

Mae'r llwybr yn dechrau o'r fynedfa i **Orsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd**. Dechreuwyd ar y gwaith o adeiladu'r Orsaf yn 1959 a bu'r ddau adweithydd yn weithredol o 1965 i 1991. Roedd y llyn yn darparu dŵr i oeri'r adweithyddion. Mae'r orsaf ynni niwclear bellach yn y broses o gael ei digomisiynu.

www.eryri-npa.gov.uk



1 O'r maes parcio ger **Gorsaf Ynni Niwclear Trawsfynydd**, trowch i'r chwith ar hyd y ffordd ac yna trowch i'r dde. Cerddwch rhwng y caffi pren a hen adeilad y clwb i ben draw'r maes parcio. Dilynwch y llwybr beicio am dros filltir hyd nes y cyrhaeddwch ffordd fawr yr A470.



2 Croeswch ffordd fawr yr A470 gan gymryd gofal mawr gan ei bod mor brysur. Cerddwch ymlaen ar hyd y ffordd fach am tua 50 metr hyd nes y gwelwch bont ar eich chwith.



3 Cerddwch dros y bont, a dilynwch y llwybr cyhoeddus gan fynd trwy ddwy giât. Pan gyrhaeddwch y ffordd darmac, trowch i'r dde a dilynwch y ffordd am 300 metr nes y cyrhaeddwch hen bont y rheilffordd.



4 Croeswch y bont, a throwch i'r chwith ger yr arwydd Llwybr Cyhoeddus. Cerddwch ar hyd y trac i fyny'r bryn ac ymhen 200 metr ewch trwy giât. Dilynwch y trac gan fynd trwy un giât arall. Wrth gyrraedd tro yn y trac cerddwch i fyny'r bryn i gyfeiriad y peilon o'ch blaen.




5 Wrth i chi fynd trwy giât arall trowch i'r dde gan gadw'r ffens ar y chwith i chi. Ewch i fyny'r bryn gan gerdded rhwng y peilon a'r adfail. Dilynwch y llwybr ac ewch trwy giât. Croeswch y nant ac ewch trwy fwllch yn y wal. Cyn cyrraedd y giât nesaf o'ch blaen, cadwch olwg am giât fechan yn y wal gerrig ar y chwith i chi gyda'r enw 'Tomen y Mur' arni.



6 Ewch trwy'r giât ar y chwith a cherddwch ar hyd y tir agored tuag at **Tomen y Mur**. Mae sawl llwybr serth i fyny'r domen. Mwynhewch y golygfeydd panoramig o'r copa.



7 Cymerwch ofal wrth ddod i lawr o Domen y Mur. Ewch draw i weld ailwneuthuriad o'r gaer Rufeinig a cherddwch trwy adfeilion y ffermdy gan sylwi ar y lle tân anhygoel.




8 Cerddwch allan o'r ffermdy a dilynwch y trac glaswelltog i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain tuag at gamfa. Ewch dros y gamfa a dilynwch y trac hyd at y ffordd darmac. Trowch i'r chwith pan gyrhaeddwch y ffordd, a cherddwch trwy'r giât ger y grid gwartheg.




9 Mewn tua 100 metr croeswch y gamfa ger yr arwydd Llwybr Cyhoeddus ar y chwith i chi. Ewch i lawr trwy'r coed tuag at bont garreg a chroeswch gamfa arall. Cerddwch i gyfeiriad y peilon trydan tuag at ddwy giât ym mhen pella'r cae.



10 Croeswch y giât ar y chwith a dilynwch y llwybr gan gadw'r ffens ar y dde i chi. Mae perchennog y tir wedi nodi'r llwybr cyhoeddus ar hyd ei dir gan ddefnyddio paent melyn. Croeswch y gamfa ger y peilon, a cherddwch i lawr y cae gan gadw'r ffens ar eich chwith.



11 Croeswch y gamfa a dilynwch y llwybr aneglur sy'n disgyn trwy'r goedlan. Pan gyrhaeddwch wal wrth waelod y goedlan, dilynwch y llwybr i'r chwith tuag at gamfa.



12 Croeswch y gamfa a cherddwch drwy'r twnel o dan yr hen reilffordd. Dringwch y stepiau i fyny i'r gilfan ar ochr yr A470. Gan gymryd gofal mawr, croeswch y ffordd brysur, trowch i'r chwith a cherddwch ar hyd y palmant. Trowch i'r dde tuag at yr Orsaf Ynni a cherddwch yn ôl i'r maes parcio.